



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 2682 (Cy.223)

2001 No. 2682 (W.223)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

ATAL CREULONDEB

PREVENTION OF CRUELTY

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid a
Ffermir (Cymru) 2001**

**The Welfare of Farmed Animals
(Wales) Regulations 2001**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig yn gweithredu'r ddeddfwriaeth Gymunedol a ganlyn -

These Regulations, which apply to Wales only, implement the following Community legislation -

Cyfarwyddeb y Cyngor 88/166/EEC sy'n nodi'r safonau isaf ar gyfer diogelu ieir dodwy a gedwir mewn cewyll batri (OJ Rhif L74, 19.3.88, t.83);

Council Directive 88/166/EEC laying down minimum standards for the protection of laying hens kept in battery cages (OJ No. L74, 19.3.88, p.83);

Cyfarwyddeb y Cyngor 91/629/EEC sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer diogelu lloi (OJ Rhif L340, 11.12.91, t.28), fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/2/EC (OJ Rhif L25, 28.1.97, t.24) a Phenderfyniad y Comisiwn 97/182/EC (OJ Rhif L76, 24.2.97, t.30);

Council Directive 91/629/EEC laying down minimum standards for the protection of calves (OJ No. L340, 11.12.91, p.28), as amended by Council Directive 97/2/EC (OJ No. L25, 28.1.97, p.24) and Commission Decision 97/182/EC (OJ No. L76, 24.2.97, p.30);

Cyfarwyddeb y Cyngor 91/630/EEC sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer diogelu moch (OJ Rhif L340, 11.12.91, t.33); a

Council Directive 91/630/EEC laying down minimum standards for the protection of pigs (OJ No. L340, 11.12.91, p.33); and

Chyfarwyddeb y Cyngor 98/58/EC ynghylch diogelu anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio (OJ Rhif L221, 8.8.98, t.23).

Council Directive 98/58/EC concerning the protection of animals kept for farming purposes (OJ No. L221, 8.8.98, p.23).

Mae'r Rheoliadau (a'r ddeddfwriaeth Gymunedol y maent yn ei gweithredu) yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau a gynhwysir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar gyfer Diogelu Anifeiliaid a gedwir at Ddibenion Ffermio dyddiedig 10 Mawrth 1976 (Cyfres Cytuniad Ewrop Rhif 87), o'i ddarllen ynghyd â'r

The Regulations (and the Community legislation which they implement) reflect the obligations contained in the European Convention for the Protection of Animals kept for Farming Purposes of 10th March 1976 (European Treaty Series No.87), as read with the Protocol of Amendment to the European

Protocol Diwygio i'r Confensiwn Ewropeaidd ar gyfer Diogelu Anifeiliaid a gedwir at Ddibenion Ffermio dyddiedig 6 Chwefror 1992 (Cyfres Cytuniad Ewrop Rhif 145).

Mae'r Rheoliadau yn gymwys i bob anifail a gedwir at ddibenion ffermio (yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig penodol) (rheoliad 2(2)).

Mae rheoliad 3(1) yn nodi'r egwyddor gyffredinol bod yn rhaid i berchenogion a cheidwaid anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio gymryd camau rhesymol i sicrhau lles yr anifeiliaid yn eu gofal a'u harbed rhag unrhyw boen, dioddefaint neu anaf diangen. Mae'r egwyddor hon yn gymwys i bob anifail (gan gynnwys pysgod, ymlusgiaid ac amffibiaid).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer gofynion cyffredinol o ran yr amodau y caiff yr holl anifeiliaid a ffermir (heblaw pysgod, ymlusgiaid ac amffibiaid) eu bridio a'u cadw ynddynt (rheoliad 3(2) ac Atodlen 1) ac ar gyfer gofynion penodol ychwanegol ynghylch yr amodau y caiff y canlynol eu bridio a'u cadw ynddynt sef ieir dodwy a gedwir mewn cewyll batri (rheoliad 4 ac Atodlen 2), dofednod (heblaw ieir dodwy a gedwir mewn cewyll batri) (rheoliad 5 ac Atodlen 3), lloi (rheoliad 6 ac Atodlen 4), gwartheg (rheoliad 7 ac Atodlen 5), moch (rheoliad 8 ac Atodlen 6) a chwningod (rheoliad 9 ac Atodlen 7).

Mae rheoliad 10 yn cynnwys darpariaeth i sicrhau bod y rhai sydd â gofal anifeiliaid yn gallu gweld copïau o'r codau lles a gyhoeddwyd o dan adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 sy'n gymwys i'r anifeiliaid sy'n cael eu bridio neu eu cadw a'u bod yn gydnabyddus â'r codau hynny. Gellir cael gwybodaeth ynghylch y codau lles a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 1968 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Mae rheoliad 11 yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol gweithredu ar unrhyw doriad o'r Rheoliadau ac mae rheoliad 12 yn darparu ar gyfer pŵer mynediad i bersonau a awdurdodir gan y Comisiwn Ewropeaidd at ddibenion gorfodi deddfwriaeth Gymunedol.

O dan reoliad 13(1), mae unrhyw doriad o'r Rheoliadau yn dramgwydd o dan adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968. O dan adran 7 o'r Ddeddf honno, y gosb uchaf am dramgwydd o'r fath yw 3 mis o garchar a/neu ddirwy ar lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd).

Mae'r rheoliadau hyn yn diddymu ac yn disodli (gyda diwygiadau):

Convention for the Protection of Animals kept for Farming Purposes of 6th February 1992 (European Treaty Series No.145).

The Regulations apply to all animals kept for farming purposes (subject to certain limited exceptions) (regulation 2(2)).

Regulation 3(1) lays down the general principle that owners and keepers of animals kept for farming purposes must take reasonable steps to ensure the welfare of animals in their care and to prevent them any unnecessary pain, suffering or injury. This principle applies to all animals (including fish, reptiles and amphibians).

The Regulations also provide for general requirements as to the conditions in which all farmed animals (other than fish, reptiles and amphibians) are bred or kept (regulation 3(2) and Schedule 1) and for specific additional requirements as to the conditions in which laying hens kept in battery cages (regulation 4 and Schedule 2), poultry (other than laying hens kept in battery cages) (regulation 5 and Schedule 3), calves (regulation 6 and Schedule 4), cattle (regulation 7 and Schedule 5), pigs (regulation 8 and Schedule 6) and rabbits (regulation 9 and schedule 7) are bred or kept.

Regulation 10 contains provision to ensure that those in charge of animals have access to copies of the welfare codes issued under section 3 of the Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act 1968 which apply to the animals being bred or kept and that they are acquainted with those codes. Information relating to the welfare codes that have been issued under the 1968 Act may be obtained from the National Assembly for Wales, Agriculture Policy Division, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

Regulation 11 provides for the service of enforcement notices requiring action to be taken to deal with any breach of the Regulations and regulation 12 provides for a power of entry for persons authorised by the European Commission for the purpose of enforcing Community legislation.

Under regulation 13(1), any contravention of the Regulations is an offence under section 2 of the Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act 1968. Under section 7 of that Act, the maximum penalty for such an offence is 3 months imprisonment and/or a fine at level 4 on the standard scale (currently, £2,500).

These regulations revoke and replace (with amendments):

Rheoliadau Lles Da Byw 1994 (O.S. 1994/2126, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1709); a

The Welfare of Livestock Regulations 1994 (S.I. 1994/2126, amended by S.I. 1998/1709); and

Rheoliadau Lles Da Byw (Diwygio) 1998 (O.S. 1998/1709).

The Welfare of Livestock (Amendment) Regulations 1998 (S.I. 1998/1709).

Mae Atodlen 1, sy'n darparu ar gyfer gofynion cyffredinol o ran yr amodau y caiff yr holl anifeiliaid a ffermir (heblaw pysgod, ymlusgiaid ac amffibiaid) eu bridio neu eu cadw ynddynt, yn cynnwys nifer o newidiadau o'r darpariaethau cyfatebol yn Atodlen 4 o Reoliadau Lles Da Byw 1994 (fel y'u diwygiwyd).

Schedule 1, which provides for general requirements as to the conditions in which all farmed animals (other than fish, reptiles and amphibians) are bred or kept, contains a number of changes from corresponding provisions in Schedule 4 of the Welfare of Livestock Regulations 1994 (as amended).

Yn benodol, mae nifer o ofynion a oedd yn gymwys o dan Reoliadau 1994, naill ai i anifeiliaid a gedwid mewn systemau dwys neu i anifeiliaid a gedwid mewn adeiladau yn unig, ond y mae eu cwmpas wedi'i estyn bellach i gynnwys yr holl anifeiliaid a ffermir (heblaw pysgod, ymlusgiaid ac amffibiaid). Mae yna hefyd nifer o ofynion newydd.

In particular, there are a number of requirements which, under the 1994 Regulations, applied only to either animals kept in intensive systems or animals kept in buildings, but the scope of which is now extended to cover all farmed animals (other than fish, reptiles and amphibians). There are also a number of new requirements.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru (www.cymru.gov.uk). Gellir cael copïau hefyd oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

A Regulatory Appraisal has been prepared and published on the National Assembly for Wales web-site (www.wales.gov.uk) Copies may also be obtained from National Assembly for Wales, Agriculture Policy Division, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2001 Rhif 2682 (Cy.223)**2001 No. 2682 (W.223)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****ATAL CREULONDEB****PREVENTION OF CRUELTY****Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001****The Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001**

Wedi'u gwneud 17 Gorffennaf 2001
Yn dod i rym 31 Gorffennaf 2001

Made 17th July 2001
Coming into force 31st July 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo (a), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 2 o Ddeddf 1968, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 2 of the Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act 1968 and now vested in it (a), and after consultation in accordance with section 2 of the 1968 Act, makes the following Regulations:

Teitl, cychwyn a chymhwyso**Title, commencement and application**

1.-(1) Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2001.

1.-(1) These Regulations may be cited as the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001 and, shall come into force on 31st July 2001.

(2) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(2) These Regulations shall apply to Wales only.

Dehongli a chymhwyso**Interpretation and application**

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

2.-(1) In these Regulations -

ystyr "anifail" ("*animal*") yw unrhyw anifail (gan gynnwys pysgod, ymlusgiaid ac amffibiaid) sy'n cael ei fridio neu ei gadw ar gyfer cynhyrchu bwyd, gwlan, croen neu ffwr neu ar gyfer dibenion ffermio eraill;

"animal" ("*anifail*") means any animal (including fish, reptiles or amphibians) bred or kept for the production of food, wool, skin or fur or for other farming purposes;

ystyr "cawell batri" ("*battery cage*") yw gofod wedi'i amgáu a fwriadwyd ar gyfer ieir dodwy mewn system fatri;

"authorised person" ("*person awdurdodedig*") means any person authorised by the National Assembly for Wales under section 6 of the Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act 1968;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid neu â gofal ohonynt p'un ai ar sail dros dro neu barhaol;

"battery cage" ("*cawell batri*") means an enclosed space intended for laying hens in a battery system;

ystyr "cod lles statudol" ("*statutory welfare code*") yw cod sydd wedi'i gyhoeddi am y tro o dan adran 3 o

"battery system" ("*system fatri*") means an arrangement of cages in rows or tiers or rows and tiers;

(a) 1968 p.34. Gweler adran 50 ar gyfer diffiniad o "the Ministers". Mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd pwerau "the Ministers" i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(a) 1968 c.34. See section 50 for a definition of "the Ministers". In relation to Wales, the powers of "the Ministers" were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968;

ystyr "iâr ddodwy" ("*laying hen*") yw iâr lawndwf o'r rhywogaeth *Gallus gallus* a gedwir ar gyfer cynhyrchu wyau;

ystyr "llo" ("*calf*") yw anifail buchol hyd at chwe mis oed;

ystyr "mochyn" ("*pig*") yw anifail o'r rhywogaeth fochaid o unrhyw oedran, a gedwir ar gyfer ei fridio neu ei besgi;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 6 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968;

ystyr "system fatri" ("*battery system*") yw trefniant o gewyll mewn rhesi neu mewn haenau neu mewn rhesi a haenau; ac

mae i "triniaeth sŏotechnegol" yr ystyr a roddir i "zootechnical treatment" gan Erthygl 1(2)(c) o Gyfarwyddeb 96/22/EEC(a) ynghylch gwahardd defnyddio sylweddau penodol sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig a beta-agonistiaid mewn ffermio stoc.

(2) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i anifeiliaid ac eithrio -

- (a) anifeiliaid sy'n byw yn y gwyllt;
- (b) anifeiliaid tra byddant mewn cystadlaethau, sioeau, digwyddiadau neu weithgareddau diwylliannol neu chwaraeol ac anifeiliaid a fwriedir yn unig i gael eu defnyddio ynddynt;
- (c) anifeiliaid arbrofol neu mewn labordai; neu
- (ch) unrhyw anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

(3) Bydd Rhan 1 o Atodlen 6 yn effeithiol at ddibenion dehongli Atodlen 6.

(4) Yn y Rheoliadau hyn -

- (a) mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;
- (b) mae unrhyw gyfeiriad at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;
- (c) mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad neu Atodlen at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad neu'r Atodlen lle mae'r cyfeiriad yn digwydd; ac
- (ch) mae unrhyw gyfeiriad at un o offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd ar yr adeg y gwneir y Rheoliadau hyn.

"calf" ("*llo*") means a bovine animal up to six months old;

"keeper" ("*ceidwad*") means any person responsible for or in charge of animals whether on a permanent or temporary basis;

"laying hen" ("*iâr ddodwy*") means an adult hen of the species *Gallus gallus* which is kept for egg production;

"pig" ("*mochyn*") means an animal of the porcine species of any age, kept for breeding or fattening;

"statutory welfare code" ("*cod lles statudol*") means a code for the time being issued under section 3 of the Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act 1968; and

"zootechnical treatment" ("*triniaeth sŏotechnegol*") has the meaning given by Article 1(2)(c) of Directive 96/22/EEC(a) concerning the prohibition on the use in stockfarming of certain substances having a hormonal or thyrostatic action and of beta-agonists.

(2) These Regulations shall apply to animals except-

- (a) animals living in the wild;
- (b) animals whilst at, and animals solely intended for use in, competitions, shows, cultural or sporting events or activities;
- (c) experimental or laboratory animals; or
- (d) any invertebrate animals.

(3) Part 1 of Schedule 6 shall have effect for the purpose of the interpretation of Schedule 6.

(4) In these Regulations -

- (a) any reference to a numbered regulation is a reference to the regulation so numbered in these Regulations;
- (b) any reference to a numbered Schedule is a reference to the Schedule to these Regulations so numbered in these Regulations;
- (c) any reference in a regulation or a Schedule to a numbered paragraph is a reference to the paragraph so numbered in the regulation or Schedule in which the reference occurs; and
- (d) any reference to an instrument of the European Community is to that instrument as amended at the time these Regulations are made.

(a) OJ Rhif L125, 23.5.96, t.3.

(a) OJ No. L125, 23.5.96, p.3.

Dyletswyddau perchenogion a cheidwaid anifeiliaid

3.-(1) Rhaid i berchenogion a cheidwaid anifeiliaid gymryd pob cam rhesymol -

- (a) i sicrhau lles yr anifeiliaid o dan eu gofal; a
- (b) i sicrhau na pherir unrhyw boen, dioddefaint nac anaf diangen i'r anifeiliaid.

(2) Rhaid i berchenogion a cheidwaid anifeiliaid (ac eithrio pysgod, ymlusgiaid ac amffibiaid) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr amodau y mae'r anifeiliaid yn cael eu bridio neu eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 1.

(3) Wrth benderfynu a yw'r amodau y mae'r anifeiliaid yn cael eu bridio neu eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 1, rhaid i berchennog a cheidwad yr anifeiliaid roi sylw i'w rhywogaeth, ac i radd eu datblygiad, eu haddasiad a'u dofiad, ac i'w hanghenion ffisiolegol ac etholegol yn unol â phrofiad cynefîn a gwybodaeth wyddonol.

Dyletswyddau ychwanegol perchenogion a cheidwaid ieir dodwy sy'n cael eu cadw mewn cewyll batri

4. Rhaid i berchenogion a cheidwaid ieir dodwy sy'n cael eu cadw mewn cewyll batri sicrhau, yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn Atodlen 1, fod yr amodau y mae'r adar yn cael eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 2.

Dyletswyddau ychwanegol perchenogion a cheidwaid dofednod (heblaw ieir dodwy sy'n cael eu cadw mewn cewyll batri)

5. Rhaid i berchenogion a cheidwaid dofednod (heblaw ieir dodwy sy'n cael eu cadw mewn cewyll batri) sicrhau, yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn Atodlen 1, fod yr amodau y mae'r adar yn cael eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 3.

Dyletswyddau ychwanegol perchenogion a cheidwaid lloi sy'n cael eu caethiwo ar gyfer eu magu a'u pesgi

6. Rhaid i berchenogion a cheidwaid lloi a gaethiwr ar gyfer eu magu a'u pesgi sicrhau, yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn Atodlen 1, fod yr amodau y mae'r anifeiliaid yn cael eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 4.

Dyletswyddau ychwanegol perchenogion a cheidwaid gwartheg

7. Rhaid i berchenogion a cheidwaid gwartheg a gaethiwr ar gyfer eu magu a'u pesgi sicrhau, yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn Atodlen 1, fod yr

Duties on owners and keepers of animals

3.-(1) Owners and keepers of animals shall take all reasonable steps -

- (a) to ensure the welfare of the animals under their care; and
- (b) to ensure that the animals are not caused any unnecessary pain, suffering or injury.

(2) Owners and keepers of animals (other than fish, reptiles and amphibians) shall take all reasonable steps to ensure that the conditions under which the animals are bred or kept comply with the requirements set out in Schedule 1.

(3) In deciding whether the conditions under which animals are being bred or kept comply with the requirements set out in Schedule 1, the owner and keeper of the animals shall have regard to their species, and to their degree of development, adaptation and domestication, and to their physiological and ethological needs in accordance with established experience and scientific knowledge.

Additional duties on owners and keepers of laying hens kept in battery cages

4. Owners and keepers of laying hens kept in battery cages shall ensure that, in addition to the requirements set out in Schedule 1, the conditions under which the birds are kept comply with the requirements set out in Schedule 2.

Additional duties on owners and keepers of poultry (other than laying hens kept in battery cages)

5. Owners and keepers of poultry (other than laying hens kept in battery cages) shall ensure that, in addition to the requirements set out in Schedule 1, the conditions under which the birds are kept comply with the requirements set out in Schedule 3.

Additional duties on owners and keepers of calves confined for rearing and fattening

6. Owners and keepers of calves confined for rearing and fattening shall ensure that, in addition to the requirements set out in Schedule 1, the conditions under which the animals are kept comply with the requirements set out in Schedule 4.

Additional duties on owners and keepers of cattle

7. Owners and keepers of cattle confined for rearing and fattening shall ensure that, in addition to the requirements set out in Schedule 1, the conditions

amodau y mae'r anifeiliaid yn cael eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 5.

Dyletswyddau ychwanegol perchenogion a cheidwaid moch

8. Rhaid i berchenogion a cheidwaid moch sicrhau, yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn Atodlen 1, fod yr amodau y mae'r anifeiliaid yn cael eu cadw odanynt yn cydymffurfio -

- (a) â'r gofynion a nodir yn Rhan II o Atodlen 6; a
- (b) â'r gofynion a nodir yn Rhannau III, IV, V neu VI o Atodlen 6 (yn ôl fel y digwydd) sy'n gymwys i'r categori penodol o fochyn a gedwir.

Dyletswyddau ychwanegol perchenogion a cheidwaid cwingod

9. Rhaid i berchenogion a cheidwaid cwingod sicrhau, yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn Atodlen 1, fod yr amodau y mae'r anifeiliaid yn cael eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 7.

Codau lles statudol

10.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cyflogi person neu'n ei gymryd ymlaen i ofalu am anifeiliaid sicrhau bod y person sy'n gofalu am yr anifeiliaid -

- (a) yn gydnabyddus â darpariaethau'r holl godau lles statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r anifeiliaid y gofelir amdanynt;
- (b) yn gallu cael gweld copi o'r codau hynny tra bydd yn gofalu am yr anifeiliaid; ac
- (c) wedi cael hyfforddiant ac arweiniad ar y codau hynny.

(2) Ni chaiff unrhyw berson sy'n cadw anifeiliaid, neu sy'n peri neu'n fwriadol yn caniatáu i anifeiliaid gael eu cadw, ofalu amdanynt oni bydd yn gallu cael gweld yr holl godau lles statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r anifeiliaid tra bydd yn gofalu amdanynt, ac yn gydnabyddus â darpariaethau'r codau hynny.

Pwerau personau awdurdodedig

11. Os yw person awdurdodedig o'r farn bod anifeiliaid yn cael eu cadw mewn ffordd sy'n debygol o achosi poen, dioddefaint neu anaf diangen, neu mewn unrhyw ffordd arall yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn, gall gyflwyno hysbysiad i'r person y mae'n ymddangos iddo ei fod â gofal yr anifeiliaid yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw, o fewn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad, gymryd unrhyw gamau sydd ym marn y person awdurdodedig yn rhesymol angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau hyn a rhaid i'r person awdurdodedig roi ei resymau dros fynnu'r camau hynny.

under which the animals are kept comply with the requirements set out in Schedule 5.

Additional duties on owners and keepers of pigs

8. Owners and keepers of pigs shall ensure that, in addition to the requirements set out in Schedule 1, the conditions under which the animals are kept comply with -

- (a) the requirements set out in Part II of Schedule 6; and
- (b) the requirements set out in Parts III, IV, V or VI of Schedule 6 (as the case may be) applicable to the particular category of pig being kept.

Additional duties on owners and keepers of rabbits

9. Owners and keepers of rabbits shall ensure that, in addition to the requirements set out in Schedule 1, the conditions under which the animals are kept comply with the requirements set out in Schedule 7.

Statutory welfare codes

10.-(1) Any person who employs or engages a person to care for animals shall ensure that the person attending to the animals -

- (a) is acquainted with the provisions of all relevant statutory welfare codes relating to the animals being cared for;
- (b) has access to a copy of those codes while he or she is caring for the animals; and
- (c) has received instruction and guidance on those codes.

(2) Any person who keeps animals, or who causes or knowingly permits animals to be kept, shall not care for them unless he or she has access to all relevant statutory welfare codes relating to the animals while he or she is caring for them, and is acquainted with the provisions of those codes.

Powers of authorised persons

11. Where an authorised person considers that animals are being kept in a way which is likely to cause unnecessary pain, suffering or injury, or in any other way in contravention of any provision of these Regulations, he or she may serve a notice on the person appearing to him or her to be in charge of the animals requiring that person, within the period stated in the notice, to take any action that the authorised person considers to be reasonably necessary to ensure compliance with these Regulations and the authorised person shall give his or her reasons for requiring that action to be taken.

Pwerau mynediad

12. Caiff person awdurdodedig sy'n arfer pwerau mynediad o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968(a) at ddibenion y Rheoliadau hyn fynd â chynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd gydag ef neu hi sy'n gweithredu at ddibenion -

- (a) Cyfarwyddeb y Cyngor 88/166/EEC(b) sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn ieir dodwy a gedwir mewn cewyll batri;
- (b) Cyfarwyddeb y Cyngor 91/629/EEC(c) sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn lloi fel y'i diwygiwyd gan y Gyfarwyddeb y Cyngor 97/2/EC(ch) a Phenderfyniad y Comisiwn 97/182/EC(d);
- (c) Cyfarwyddeb y Cyngor 91/630/EEC(dd) sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn moch; neu
- (ch) Cyfarwyddeb y Cyngor 98/58/EC(e) ynghylch amddiffyn anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio;

yn ogystal ag unrhyw berson sy'n mynd gydag ef neu hi o dan y pwerau a ddarperir o dan adran 6(3) o'r Ddeddf honno.

Tramgyddau

13.-(1) Mae person sydd, heb awdurdod neu esgus cyfreithiol -

- (a) yn torri neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn;
- (b) yn methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan reoliad 11 o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad;
- (c) yn cofnodi unrhyw eitem mewn cofnod, neu'n rhoi unrhyw wybodaeth at ddibenion y Rheoliadau hyn y mae'n gwybod ei bod yn ffug mewn unrhyw fanylyn penodol neu sydd, at y dibenion hynny, yn gwneud datganiad yn ddi-hid neu'n rhoi gwybodaeth sy'n ffug mewn unrhyw fanylyn penodol; neu
- (ch) yn peri neu'n caniatáu unrhyw un o'r uchod,

yn euog o dramgwydd o dan adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968.

(2) Mewn unrhyw achos yn erbyn perchennog neu geidwad anifeiliaid am fethu â chydymffurfio â rheoliad 3(1) neu 3(2) (fel y'u darllenir ynghyd â rheoliad 3(3)), gall y perchennog neu'r ceidwad, yn ôl

(a) 1968 p. 34.

(b) OJ Rhif L74, 19.3.88, t. 83.

(c) OJ Rhif L340, 11.12.91, t.28.

(ch) OJ Rhif L.25, 28.1.97, t.24.

(d) OJ Rhif L76, 24.2.97, t.33.

(dd) OJ Rhif L340, 11.12.91, t.33.

(e) OJ Rhif L221, 8.8.98, t.23.

Powers of entry

12. An authorised person exercising powers of entry under the Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act 1968(a) for the purposes of these Regulations may take with him or her a representative of the European Commission acting for the purposes of -

- (a) Council Directive 88/166/EEC(b) laying down minimum standards for the protection of laying hens kept in battery cages;
- (b) Council Directive 91/629/EEC(c) laying down minimum standards for the protection of calves as amended by Council Directive 97/2/EC(d) and Commission Decision 97/182/EC(e);
- (c) Council Directive 91/630/EEC(f) laying down minimum standards for the protection of pigs; or
- (d) Council Directive 98/58/EC(g) concerning the protection of animals kept for farming purposes;

as well as any person he or she takes under powers provided under section 6(3) of that Act.

Offences

13.-(1) A person who, without lawful authority or excuse -

- (a) contravenes or fails to comply with any provision of these Regulations;
- (b) fails to comply with a notice served under regulation 11 within the time specified in the notice;
- (c) makes any entry in a record, or gives any information for the purposes of these Regulations which he or she knows to be false in any material particular or, for those purposes, recklessly makes a statement or gives any information which is false in any material particular; or
- (d) causes or permits any of the above,

shall be guilty of an offence under section 2 of the Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act 1968.

(2) In any proceedings against an owner or keeper of animals for a failure to comply with regulation 3(1) or 3(2) (as read with regulation 3(3)), the owner or keeper, as the case may be, may rely on his or her

(a) 1968 c. 34.

(b) OJ No. L74, 19.3.88, p. 83.

(c) OJ No.L340, 11.12.91, p.28.

(d) OJ No. L.25, 28.1.97, p.24.

(e) OJ No. L76, 24.2.97, p.33.

(f) OJ No.L340, 11.12.91, p.33.

(g) OJ No.L221, 8.8.98, p.23.

fel y digwydd, ddibynnu ar y ffaith eu bod wedi cydymffurfio ag unrhyw argymhelliad perthnasol a gynhwysir mewn cod lles statudol fel pe bai'n tueddu i sefydlu eu bod wedi cydymffurfio â'r rheoliad perthnasol.

Diddymiadau

14. Drwy hyn diddymir Rheoliadau Lles Da Byw 1994(a) a Rheoliadau Lles Da Byw (Diwygio) 1998(b) mewn perthynas â Chymry yn unig.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c)

compliance with any relevant recommendation contained in a statutory welfare code as tending to establish his or her compliance with the relevant regulation.

Revocations

14. The Welfare of Livestock Regulations 1994(a) and the Welfare of Livestock (Amendment) Regulations 1998(b) are hereby revoked as regards Wales only.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998 (c)

D. Elis-Thomas

17 Gorffennaf 2001

17th July 2001

Llywydd

The Presiding Officer

(a) O.S. 1994/2126, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/1709.

(b) O.S. 1998/1709.

(c) 1998 p.38.

(a) S.I. 1994/2126, amended by S.I. 1998/1709.

(b) S.I. 1998/1709.

(c) 1998 c.38.

ATODLEN 1

Rheoliadau 3(2), 3(3), 4, 5, 6, 7, 8 a 9

YR AMODAU CYFFREDINOL Y MAE'N RHAID CADW ANIFEILIAID A FFERMIR ODANYNT

Staffio

1. Rhaid i anifeiliaid dderbyn gofal gan nifer digonol o staff sy'n meddu ar y gallu, yr wybodaeth a'r hyfedredd proffesiynol priodol.

Archwilio

2.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i bob anifail a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle bydd eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i weld eu bod mewn cyflwr o lesiant.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau heblaw systemau hwsmonaeth y mae eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio ar ysbeidiau digonol i osgoi unrhyw ddiodef.

(3) Er gwaethaf is-baragraffau (1) a (2), yn yr achosion canlynol, at ddibenion y paragraff hwn bydd yn ddigonol cydymffurfio â'r darpariaethau penodol a ganlyn -

- (a) yn achos ieir dodwy a gedwir mewn cewyll batri, paragraff 7 o Atodlen 2;
- (b) yn achos lloi, paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4; ac
- (c) yn achos moch, paragraff 2 o Atodlen 6.

3. Pan gedwir anifeiliaid mewn adeilad rhaid cael digon o oleuadau (naill ai'n sefydlog neu'n symudol) i'w galluogi i gael eu harchwilio'n drwyadl ar unrhyw adeg.

4. Pan gedwir unrhyw anifeiliaid (heblaw dofednod) mewn adeilad, rhaid iddynt gael eu cadw ar fan gorwedd, neu rhaid iddynt bob amser allu mynd i fan gorwedd, sydd naill â gwasarn sych wedi'i gynnal yn dda neu sydd wedi'i draenio'n dda.

5. Os yw'n ymddangos bod unrhyw anifail yn sâl neu wedi'i anafu -

- (a) rhaid gofalu amdano'n briodol heb oedi; a
- (b) os nad yw'n ymateb i'r gofal hwnnw, rhaid cael cyngor milfeddygol cyn gynted â phosibl.

6.-(1) Os oes angen, rhaid ynysu anifeiliaid sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych, lle bo hynny'n briodol.

(2) Er gwaethaf is-baragraff (1), yn yr achosion canlynol, at ddibenion y paragraff hwn bydd yn

SCHEDULE 1

Regulations 3(2), 3(3), 4, 5, 6, 7, 8 and 9

GENERAL CONDITIONS UNDER WHICH FARMED ANIMALS MUST BE KEPT

Staffing

1. Animals shall be cared for by a sufficient number of staff who possess the appropriate ability, knowledge and professional competence.

Inspection

2.-(1) Subject to sub-paragraph (3), all animals kept in husbandry systems in which their welfare depends on frequent human attention shall be thoroughly inspected at least once a day to check that they are in a state of well-being.

(2) Subject to sub-paragraph (3), animals kept in systems other than husbandry systems in which their welfare depends on frequent human attention shall be inspected at intervals sufficient to avoid any suffering.

(3) Notwithstanding sub-paragraphs (1) and (2), in the following cases, it shall be sufficient for the purposes of this paragraph to comply with the following specific provisions -

- (a) in the case of laying hens kept in battery cages, paragraph 7 of Schedule 2;
- (b) in the case of calves, paragraphs 3 and 4 of Schedule 4; and
- (c) in the case of pigs, paragraph 2 of Schedule 6.

3. Where animals are kept in a building adequate lighting (whether fixed or portable) shall be available to enable them to be thoroughly inspected at any time.

4. Where any animals (other than poultry) are kept in a building they shall be kept on, or have access at all times to, a lying area which either has well-maintained dry bedding or is well-drained.

5. Any animals which appear to be ill or injured -

- (a) shall be cared for appropriately without delay; and
- (b) where they do not respond to such care, veterinary advice shall be obtained as soon as possible.

6.-(1) Where necessary, sick or injured animals shall be isolated in suitable accommodation with, where appropriate, dry comfortable bedding.

(2) Notwithstanding sub-paragraph (1), in the following cases, it shall be sufficient for the purposes

ddigonol cydymffurfio â'r darpariaethau penodol a ganlyn -

- (a) yn achos lloi, paragraff 5 o Atodlen 4; a
- (b) yn achos moch, paragraff 3 o Atodlen 6.

Cadw cofnodion

7. Rhaid cadw cofnod -

- (a) o unrhyw driniaeth feddyginiaethol a roir i anifeiliaid; a
- (b) o'r nifer o farwolaethau a ganfyddir ymhob archwiliad o'r anifeiliaid a wneir yn unol ag unrhyw un o'r darpariaethau canlynol -
 - (i) yn achos ieir dodwy a gedwir mewn cewyll batri, paragraff 7 o Atodlen 2;
 - (ii) yn achos lloi, paragraff 3 neu 4 o Atodlen 4;
 - (iii) yn achos moch, paragraff 2 o Atodlen 6; neu
 - (iv) mewn unrhyw achos arall, paragraff 2 o'r Atodlen hon.

8. Rhaid cadw'r cofnod y cyfeirir ato ym mharagraff 7 am gyfnod o dair blynedd o leiaf o'r dyddiad pan roddwyd y driniaeth feddyginiaethol, neu ddyddiad yr archwiliad, yn ôl fel y digwydd, a rhaid trefnu ei fod ar gael i berson awdurdodedig tra bydd wrthi'n archwilio neu pan fydd person o'r fath yn gofyn amdano fel arall.

Rhyddid i symud

9. Rhaid peidio â chyfyngu ar ryddid anifeiliaid i symud, o roi sylw i'w rhywogaeth ac yn unol â phrofiad cynefin a gwybodaeth wyddonol, mewn unrhyw ffordd a fydd yn peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.

10. Os bydd anifeiliaid yn cael eu clymu neu eu caethiwo yn ddi-dor neu'n rheolaidd, rhaid iddynt gael y lle priodol ar gyfer eu hanghenion ffisiolegol ac etholegol yn unol â phrofiad cynefin a gwybodaeth wyddonol.

Adeiladau a llety

11. Rhaid i'r defnyddiau a ddefnyddir i adeiladu'r llety, ac, yn benodol ar gyfer adeiladu corlannau, cewyll, corau ac offer y gall yr anifeiliaid ddod i gyffyrddiad â hwy, beidio â bod yn niweidiol iddynt a rhaid bod modd eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr.

12. Rhaid i'r adeiladau a'r ffitiadau ar gyfer sicrhau anifeiliaid gael eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw fel nad oes ymylon nac allwthiadau llym yn debygol o beri anaf iddynt.

13. Rhaid i gylchrediad aer, lefelau llwch,

of this paragraph to comply with the following specific provisions -

- (a) in the case of calves, paragraph 5 of Schedule 4; and
- (b) in the case of pigs, paragraph 3 of Schedule 6.

Record keeping

7. A record shall be maintained of -

- (a) any medicinal treatment given to animals; and
- (b) the number of mortalities found on each inspection of animals carried out in accordance with any of the following provisions -
 - (i) in the case of laying hens kept in battery cages, paragraph 7 of Schedule 2;
 - (ii) in the case of calves, paragraph 3 or 4 of Schedule 4;
 - (iii) in the case of pigs, paragraph 2 of Schedule 6; or
 - (iv) in any other case, paragraph 2 of this Schedule.

8. The record referred to in paragraph 7 shall be retained for a period of at least three years from the date on which the medical treatment was given, or the date of the inspection, as the case may be, and shall be made available to an authorised person when carrying out an inspection or when otherwise requested by such person.

Freedom of movement

9. The freedom of movement of animals, having regard to their species and in accordance with established experience and scientific knowledge, shall not be restricted in such a way as to cause them unnecessary suffering or injury.

10. Where animals are continuously or regularly tethered or confined, they shall be given the space appropriate to their physiological and ethological needs in accordance with established experience and scientific knowledge.

Buildings and accommodation

11. Materials used for the construction of accommodation, and, in particular for the construction of pens, cages, stalls and equipment with which the animals may come into contact, shall not be harmful to them and shall be capable of being thoroughly cleansed and disinfected.

12. Accommodation and fittings for securing animals shall be constructed and maintained so that there are no sharp edges or protrusions likely to cause injury to them.

13. Air circulation, dust levels, temperature, relative

tymheredd, lleithder aer cymharol a chrynodiaidau nwy gael eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i anifeiliaid.

14. Rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau beidio â chael eu cadw mewn tywyllwch parhaol.

15. Os nad yw'r golau naturiol sydd ar gael mewn adeilad yn ddigonol i ddiwallu anghenion ffisiolegol ac etholegol unrhyw anifeiliaid a gedwir ynddo yna rhaid darparu golau artiffisial priodol.

16. Rhaid peidio â chadw anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau heb gyfnod priodol o orffwys heb olau artiffisial.

Anifeiliaid na chedwir mohonynt mewn adeiladau

17. Rhaid i anifeiliaid na chedwir mohonynt mewn adeiladau, pan fo angen a phan fo'n bosibl, gael eu hamddiffyn rhag tywydd gwael, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd a chael y cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i draenio'n dda.

Offer awtomatig neu fecanyddol

18. Rhaid i bob offer awtomataidd neu fecanyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a llesiant yr anifeiliaid gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg arno.

19. Pan ganfyddir diffygion mewn offer awtomataidd neu fecanyddol o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 18, rhaid eu cywiro ar unwaith, neu os nad yw hyn yn bosibl, rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid tra disgwylir i'r diffygion hynny gael eu cywiro gan gynnwys defnyddio dulliau amgen o fwydo a dyfrio a dulliau amgen o ddarparu a chynnal amgylchedd boddhaol.

20. Pan fydd iechyd a llesiant yr anifeiliaid yn ddibynnol ar system awyru artiffisial -

- (a) rhaid darparu ar gyfer system wrth-gefn briodol i warantu digon o adnewyddu aer i gadw iechyd a llesiant yr anifeiliaid os digwydd i'r system fethu; a
- (b) rhaid darparu system larwm (a fydd yn gweithredu hyd yn oed os bydd y prif gyflenwad trydan yn methu) i rybuddio am unrhyw fethiant yn y system.

21. Rhaid i'r system wrth-gefn y cyfeirir ati ym mharagraff 20(a) gael ei harchwilio'n drwyadl a rhaid i'r system larwm y cyfeirir ati ym mharagraff 20(b) gael ei phrofi o leiaf unwaith bob saith diwrnod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg yn y system, ac, os canfyddir unrhyw ddiffyg (adeg archwilio neu brofi'r system yn unol â'r paragraff hwn neu ar unrhyw adeg arall), rhaid ei gywiro ar unwaith.

air humidity and gas concentrations shall be kept within limits which are not harmful to the animals.

14. Animals kept in buildings shall not be kept in permanent darkness.

15. Where the natural light available in a building is insufficient to meet the physiological and ethological needs of any animals being kept in it then appropriate artificial lighting shall be provided.

16. Animals kept in buildings shall not be kept without an appropriate period of rest from artificial lighting.

Animals not kept in buildings

17. Animals not kept in buildings shall, where necessary and possible, be given protection from adverse weather conditions, predators and risks to their health and shall, at all times, have access to a well-drained lying area.

Automatic or mechanical equipment

18. All automated or mechanical equipment essential for the health and well-being of the animals shall be inspected at least once a day to check that there is no defect in it.

19. Where defects in automated or mechanical equipment of the type referred to in paragraph 18 are discovered, these shall be rectified immediately, or if this is impossible, appropriate steps shall be taken to safeguard the health and well-being of the animals pending the rectification of such defects including the use of alternative methods of feeding and watering and methods of providing and maintaining a satisfactory environment.

20. Where the health and well-being of the animals is dependent on an artificial ventilation system -

- (a) provision shall be made for an appropriate back-up system to guarantee sufficient air renewal to preserve the health and well-being of the animals in the event of failure of the system; and
- (b) an alarm system (which will operate even if the principal electricity supply to it has failed) shall be provided to give warning of any failure of the system.

21. The back-up system referred to in paragraph 20(a) shall be thoroughly inspected and the alarm system referred to in paragraph 20(b) shall each be tested at least once every seven days in order to check that there is no defect in the system, and, if any defect is found (whether when the system is inspected or tested in accordance with this paragraph or at any other time), it shall be rectified immediately.

Bwyd, dŵr a sylweddau eraill

22. Rhaid i anifeiliaid gael eu bwydo â deiet iachus sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth ac a fwydir iddynt mewn swmp digonol i'w cynnal mewn iechyd da, i fodloni eu hanghenion maethiadol a hybu cyflwr cadarnhaol o lesiant.

23. Rhaid peidio â rhoi bwyd neu ddiod i unrhyw anifail mewn modd, a rhaid i'r bwyd neu'r ddiod honno beidio â chynnwys unrhyw sylwedd, a all beri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.

24. Rhaid i bob anifail gael y cyfle i fynd at fwyd ar adegau sy'n briodol i'w anghenion ffisiologol, (ac o leiaf unwaith y dydd beth bynnag), ac eithrio pan fydd milfeddyg yn gweithredu wrth arfer ei broffesiwn yn cyfarwyddo fel arall.

25. Rhaid i bob anifail gael cyfle naill ai i fynd at gyflenwad o ddŵr addas a chael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd neu allu bodloni eu hangen i gael diod drwy dulliau eraill.

26. Rhaid i offer bwydo a dyfrio gael ei ddylunio, ei adeiladu, ei osod a'i gynnal fel bod difwyno bwyd a dwr ac effeithiau niweidiol cystadlu rhwng anifeiliaid yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl.

27. Rhaid peidio â rhoi unrhyw sylwedd arall, ac eithrio y rhai a roddir at ddibenion therapiwtig neu broffilactig neu at ddibenion triniaeth sŏotechnegol i anifeiliaid oni ddangoswyd gan astudiaethau gwyddonol ar les anifeiliaid neu gan brofiad cynefin nad yw effaith y sylwedd hwnnw yn niweidiol i iechyd neu les yr anifeiliaid.

Gweithdrefnau bridio

28.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid peidio â defnyddio bridio neu weithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n peri neu sy'n debygol o beri dioddefaint neu anaf i unrhyw un o'r anifeiliaid o dan sylw.

(2) Ni fydd is-baragraff (1) yn atal defnyddio gweithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n debygol o beri'r dioddefaint neu'r anaf lleiaf posibl neu am ennyd neu rai a allai beri bod angen ymyriadau na fyddent yn peri anaf parhaol.

29. Rhaid peidio â chadw unrhyw anifeiliaid at ddibenion ffermio oni ellir disgwyl yn rhesymol, ar sail eu genoteip neu eu ffenoteip, y gellir eu cadw heb effaith niweidiol i'w hiechyd neu eu lles.

Llonyddu â thrydan

30. Ni chaiff neb roi cerrynt trydan i unrhyw anifeiliaid er mwyn eu llonyddu.

Feed, water and other substances

22. Animals shall be fed a wholesome diet which is appropriate to their age and species and which is fed to them in sufficient quantity to maintain them in good health, to satisfy their nutritional needs and to promote a positive state of well-being.

23. No animals shall be provided with food or liquid in a manner, nor shall such food or liquid contain any substance, which may cause them unnecessary suffering or injury.

24. All animals shall have access to feed at intervals appropriate to their physiological needs (and, in any case, at least once a day), except where a veterinary surgeon acting in the exercise of his profession otherwise directs.

25. All animals shall either have access to a suitable water supply and be provided with an adequate supply of fresh drinking water each day or be able to satisfy their fluid intake needs by other means.

26. Feeding and watering equipment shall be designed, constructed, placed and maintained so that contamination of food and water and the harmful effects of competition between animals are minimised.

27. No other substance, with the exception of those given for therapeutic or prophylactic purposes or for the purpose of zootechnical treatment shall be administered to animals unless it has been demonstrated by scientific studies of animal welfare or established experience that the effect of that substance is not detrimental to the health or welfare of the animals.

Breeding procedures

28.-(1) Subject to sub-paragraph (2), natural or artificial breeding or breeding procedures which cause, or are likely to cause, suffering or injury to any of the animals concerned shall not be practised.

(2) Sub-paragraph (1) shall not preclude the use of natural or artificial breeding procedures that are likely to cause minimal or momentary suffering or injury or that might necessitate interventions which would not cause lasting injury.

29. No animals shall be kept for farming purposes unless it can reasonably be expected, on the basis of their genotype or phenotype, that they can be kept without detrimental effect on their health or welfare.

Electrical immobilisation

30. No person shall apply an electrical current to any animals for the purposes of immobilisation.

AMODAU YCHWANEGOL Y MAE'N RHAID CADW IEIR DODWY MEWN CEWYLL BATRI ODANYNT

1. Rhaid i bob cawell gydymffurfio â'r gofynion canlynol -

- (a) rhaid i arwynebedd y cawell, wedi'i fesur ar blan llorweddol, ar gyfer pob iâr ddodwy beidio â bod yn llai -
 - (i) na 1000cm² pan gedwir un iâr yn y cawell;
 - (ii) na 750 cm² pan gedwir dwy iâr yn y cawell;
 - (iii) na 550 cm² pan gedwir tair iâr yn y cawell; a
 - (iv) na 450 cm² pan gedwir pedair neu fwy o ieir yn y cawell;
- (b) rhaid i isafswm arwynebedd y cawell ar gyfer pob iâr ddodwy allu cael ei ddefnyddio heb gyfyngiad a gall gynnwys y fan lle mae'r plât ar gyfer dargyfeirio deunydd nad yw'n wastraff (a elwir fel arall yn gard wyau) wedi'i roi cyhyd â bod modd defnyddio'r fan honno;
- (c) rhaid darparu cafn bwyd nad yw ei hyd yn llai na 10 cm wedi'i luosi â nifer yr ieir yn y cawell ac y gellir ei ddefnyddio heb gyfyngiad;
- (ch) ac eithrio pan ddarperir pigynnau dŵr a chwpanau dŵr, rhaid i'r cawell gael sianel yfed barhaol na fydd yn llai na 10cm wedi'i luosi â nifer yr ieir yn y cawell, ac y gellir ei defnyddio heb gyfyngiad;
- (d) pan geir pwyntiau yfed wedi'i plymio, rhaid cael o leiaf ddau bigyn yfed neu ddau gwpan yfed o fewn cyrraedd y cawell;
- (dd) rhaid i uchder y cawell, am 65% o'i arwynebedd, beidio â bod yn llai na 40 cm, ac am weddill yr arwynebedd, rhaid iddo beidio â bod yn llai na 35 cm (ceir yr uchder drwy gyfrwng llinell fertigol o'r llawr i'r pwynt agosaf yn y to a cheir yr arwynebedd drwy luosi 450cm² â nifer yr adar a gedwir yn y cawell);
- (e) rhaid adeiladu llawr y cawell fel y gall gynnal yn ddigonol bob un o'r crafangau sy'n wynebu ymlaen ar bob troed; ac
- (f) rhaid i ogwyddiad y llawr beidio â bod yn fwy na 14% neu 8 gradd, pan yw wedi'i wneud o rwyllau gwifrog petryalog, a 21.3% neu 12 gradd ar gyfer mathau eraill o lawr.

2. Rhaid i gewyll batri gael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal yn y fath fodd ag i atal unrhyw anaf neu ddiodefaint diangen i ieir dodwy i'r graddau sy'n

ADDITIONAL CONDITIONS UNDER WHICH LAYING HENS KEPT IN BATTERY CAGES MUST BE KEPT

1. All cages must comply with the following requirements -

- (a) the cage area, measured in a horizontal plane, for each laying hen shall be not less than -
 - (i) 1000cm² where one hen is kept in the cage;
 - (ii) 750 cm² where two hens are kept in the cage;
 - (iii) 550 cm² where three hens are kept in the cage; and
 - (iv) 450 cm² where four or more hens are kept in the cage;
- (b) the minimum cage area for each laying hen shall be capable of being used without restriction and may include the area where the non-waste deflection plate (otherwise known as the egg guard) is placed so long as that area is capable of being so used;
- (c) a feed trough of a length not less than 10 cm multiplied by the number of hens in the cage and capable of being used without restriction shall be provided;
- (d) except where nipple drinkers and drinking cups are provided, the cage shall have a continuous drinking channel which shall not be less than 10 cm multiplied by the number of hens in the cage, and capable of being used without restriction;
- (e) where drinking points are plumbed in, there shall be a minimum of two nipple drinkers or two drinking cups within reach of the cage;
- (f) the height of the cage, for 65% of its area, shall be no less than 40 cm, and, for the remainder of the area, shall be not less than 35 cm (the height being obtained by a vertical line from the floor to the nearest point in the roof and the area being obtained by multiplying 450cm² by the number of birds kept in the cage);
- (g) the floor of the cage shall be constructed so as to support adequately each of the forward facing claws of each foot; and
- (h) the slope of the floor shall not exceed 14% or 8 degrees, when made of rectangular wire mesh, and 21.3% or 12 degrees for other types of floor.

2. Battery cages shall be designed, constructed and maintained in such a way as to prevent any injury or unnecessary suffering to laying hens to the extent

bosibl yn sefyllfa bresennol technoleg.

3. Rhaid i ddyluniad a maint agoriad y cawell fod yn gyfryw fel y gellir rhoi ieir dodwy i mewn neu eu codi allan heb beri anaf na dioddefaint diangen iddynt.

4. Rhaid i'r cewyll fod wedi'u cyfarparu a'u cynnal yn addas i rwystro'r ieir dodwy rhag dianc.

5. Ac eithrio pan fydd triniaeth therapiwtig neu broffilactig yn mynnu fel arall, rhaid i bob iâr ddodwy gael cyfle i fynd at fwyd iachus, maethlon a hylan bob dydd mewn swmp digonol i'w cynnal mewn iechyd da ac i fodloni eu hanghenion maethiadol, ac i dŵr yfed ffres digonol bob amser.

6. Rhaid i'r ieir dodwy dderbyn gofal gan bersonél sydd â gwybodaeth a phrofiad digonol o'r system gynhyrchu a ddefnyddir.

7. Rhaid i'r haid neu'r grwp o ieir dodwy gael eu harchwilio'n drwyadl o leiaf unwaith y dydd a rhaid trefnu bod ffynhonnell o olau (sefydlog neu symudol) ar gael sy'n ddigon cryf i weld pob aderyn yn glir.

8. Rhaid peidio â defnyddio llety sy'n cynnwys mwy na thair haen o gewyll onid oes dyfeisiau neu fesurau addas yn ei gwneud yn bosibl archwilio pob haen yn drwyadl heb anhawster.

9.(1) Pan fydd yn ymddangos nad yw ieir dodwy mewn iechyd da neu eu bod yn dangos newidiadau ymddygiad, rhaid cymryd camau i ddarganfod yr achos a chymryd y camau adfer priodol.

(2) Pan fydd angen cymryd camau adfer o dan is-baragraff (1) uchod, rhaid rhoi ystyriaeth i'r mathau canlynol o gamau -

- (a) rhoi triniaeth;
- (b) ynysu;
- (c) cwlio;
- (ch) cywiro ffactorau amgylcheddol; a
- (d) unrhyw fath arall o gamau adferol y mae ei angen.

(3) Os olrheinir achos y mae problemau iechyd neu ymddygiad y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) uchod i ffactor amgylcheddol yn yr uned gynhyrchu nad yw'n hanfodol ei adfer ar unwaith, rhaid cymryd camau adfer cyn gynted ag sy'n ymarferol, a beth bynnag pan yw'r llety yn cael ei wagio nesaf a chyn i'r llwyth nesaf o ieir dodwy gael eu rhoi yno.

10.(1) Bob tro y mae'r holl gewyll a gedwir gyda'i gilydd yn cael eu gwagio rhaid eu glanhau'n a'u diheintio'n drylwyr cyn rhoi'r llwyth nesaf o ieir dodwy yno.

(2) Pan fydd ieir yn y cewyll, rhaid cadw'r arwynebau a'r holl offer yn foddhaol lân.

possible in the existing stage of technology.

3. The design and size of the cage opening must be such that laying hens can be put in or taken out without causing injury or unnecessary suffering.

4. The cages must be suitably equipped and maintained to prevent escape.

5. Except where therapeutic or prophylactic treatment demands otherwise, all laying hens shall have access to adequate, nutritious and hygienic feed each day in sufficient quantity to maintain them in good health and to satisfy their nutritional needs, and to adequate fresh drinking water at all times.

6. The laying hens shall be cared for by personnel with adequate knowledge and experience of the production system used.

7. The flock or group of laying hens shall be inspected thoroughly at least once a day and a source of light (whether fixed or portable) shall be available which is strong enough for each bird to be seen clearly.

8. Accommodation comprising more than three tiers of cages shall not be used unless suitable devices or measures make it possible to inspect thoroughly all tiers without difficulty.

9.(1) When laying hens do not appear to be in good health or show behavioural changes, steps shall be taken to establish the cause appropriate remedial action is taken.

(2) Where remedial action is required to be taken under sub-paragraph (1) above, consideration shall be given to the following types of action -

- (a) treatment;
- (b) isolation;
- (c) culling;
- (d) correction of environmental factors; and
- (e) any other form of remedial action which might be necessary.

(3) If the cause of the health or behavioural problems referred to in sub-paragraph (1) above is traced to an environmental factor in the production unit which it is not essential to remedy immediately, remedial action shall be taken as soon as practicable and in any event when the accommodation is next emptied and before the next batch of laying hens is put in.

10.(1) Every time all the cages housed together are emptied they shall be thoroughly cleansed and disinfected before the next batch of laying hens is put in.

(2) While the cages are occupied, the surfaces and all equipment shall be kept satisfactorily clean.

**AMODAU YCHWANEGOL Y MAE'N RHAID
CADW DOFEDNOD (HEBLAW IEIR DODWY A
GEDWIR MEWN CEWYLL BATRI) ODANYNT**

Pan gedwir unrhyw ddofednod (heblaw ieir dodwy a gedwir mewn cewyll batri) mewn adeilad, rhaid iddynt gael eu cadw ar laesodr, neu rhaid iddynt bob amser allu mynd at laesodr, sydd wedi'i gynnal yn dda, neu at fan wedi'i draenio'n dda ar gyfer gorffwys.

**ADDITIONAL CONDITIONS UNDER WHICH
POULTRY (OTHER THAN LAYING HENS KEPT
IN BATTERY CAGES) MUST BE KEPT**

Where any poultry (other than laying hens kept in battery cages) are kept in a building, they shall be kept on, or have access at all times to, well-maintained litter or to a well-drained area for resting.

**AMODAU YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I
GADW LLOI SY'N CAEL EU CAETHIWO AR
GYFER EU MAGU A'U PESGI**

Llety

1.-(1) Rhaid peidio â chaethiwo unrhyw lo mewn côr neu gorlan unigol ar ôl wyth wythnos oed oni fydd milfeddyg yn ardystio bod ei iechyd neu ei ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ynysu er mwyn iddo gael triniaeth.

(2) Rhaid i led unrhyw gôr neu gorlan unigol ar gyfer llo fod o leiaf yn hafal i uchder y llo wrth ei war, wedi'i fesur wrth iddo sefyll, a rhaid i'r hyd fod o leiaf yn hafal i hyd corff y llo, wedi'i fesur o flaen y trwyn hyd at ben cynffonog y tuber ischii (asgwrn y llosgwrn), wedi'u lluosu â 1.1.

(3) Rhaid i gorau neu gorlannau unigol ar gyfer lloi (ac eithrio y rhai sy'n ynysu anifeiliaid sâl) gael waliau trydyllog sy'n caniatáu i'r lloi gael cysylltiad uniongyrchol trwy weld a thrwy gyffwrdd.

(4) Ar gyfer lloi a gedwir mewn grwpiau, dyma'r lwfans gofod di-rwystyr y mae'n rhaid iddo fod ar gael ar gyfer pob llo -

- (a) o leiaf 1.5 metr sgwâr ar gyfer pob llo gyda phwysau byw llai na 150kg;
- (b) o leiaf 2 fetr sgwâr ar gyfer pob llo gyda phwysau byw o 150 kg neu fwy ond llai na 200 kg; ac
- (c) o leiaf 3 metr sgwâr ar gyfer pob llo gyda phwysau byw o 200kg neu fwy.

(5) Rhaid i bob llo allu sefyll, troi o amgylch, gorwedd, gorffwysu a thacluso'i hun heb rwystyr.

(6) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (7) ac (8), rhaid i bob llo a gedwir ar ddaliad y cedwir dau neu fwy o loi arno allu gweld o leiaf un llo arall.

**ADDITIONAL CONDITIONS THAT APPLY TO
THE KEEPING OF CALVES CONFINED FOR
REARING AND FATTENING**

Accommodation

1.-(1) No calf shall be confined in an individual stall or pen after the age of eight weeks unless a veterinary surgeon certifies that its health or behaviour requires it to be isolated in order to receive treatment.

(2) The width of any individual stall or pen for a calf shall be at least equal to the height of the calf at the withers, measured in the standing position, and the length shall be at least equal to the body length of the calf, measured from the tip of the nose to the caudal edge of the tuber ischii (pin bone), multiplied by 1.1.

(3) Individual stalls or pens for calves (except for those isolating sick animals) shall have perforated walls which allow calves to have direct visual and tactile contact.

(4) For calves kept in groups, the unobstructed space allowance available to each calf shall be -

- (a) at least 1.5 square metres for each calf with a live weight of less than 150kg;
- (b) at least 2 square metres for each calf with a live weight of 150 kg or more but less than 200 kg; and
- (c) at least 3 square metres for each calf with a live weight of 200kg or more.

(5) Each calf shall be able to stand up, turn around, lie down, rest and groom itself without hindrance.

(6) Subject to sub-paragraphs (7) and (8), each calf that is kept on a holding on which two or more calves are kept shall be able to see at least one other calf.

(7) Nid yw is-baragraff (6) yn gymwys i unrhyw lo sy'n cael ei gadw wedi'i ynysu ar ddaliad ar gyngor milfeddyg.

(8) At ddibenion cyfrifo nifer y lloi a gedwir ar ddaliad er mwyn penderfynu a yw is-baragraff (6) yn gymwys, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw lo a gedwir wedi'i ynysu ar y daliad hwnnw ar gyngor milfeddygol.

Darpariaethau trosiannol ar gyfer llety

2.-(1) Hyd at 1 Ionawr 2004, ni fydd is-baragraffau (1), (3) a (4) o baragraff 1 yn gymwys mewn perthynas â llety a oedd yn cael ei ddefnyddio cyn 1 Ionawr 1998.

(2) Hyd at 1 Ionawr 2004, yn achos llety y dechreuwyd ei ddefnyddio ar ôl 1 Ionawr 1994 ond cyn 1 Ionawr 1998 -

- (a) pan gedwir lloi mewn grwpiau, rhaid i bob llo o 150kg neu fwy o bwysau byw gael o leiaf 1.5 metr sgwâr o ofod llawr dirwyst, a
- (b) pan gedwir llo mewn côr neu gorlan unigol, rhaid i'r côr neu'r gorlan gael o leiaf un wal drydyllog sy'n galluogi'r llo i weld anifeiliaid eraill mewn corau a chorlannau cyfagos onid yw wedi'i ynysu am resymau milfeddygol.

Archwilio

3. Rhaid i bob llo a gedwir mewn adeilad gael ei archwilio gan berchennog neu geidwad y lloi o leiaf ddwywaith y dydd i sicrhau eu bod mewn cyflwr o lesiant.

4. Rhaid i loi a gedwir y tu allan gael eu harchwilio gan berchennog neu geidwad y lloi o leiaf unwaith y dydd i sicrhau eu bod mewn cyflwr o lesiant.

5. Pan fydd angen, rhaid ynysu lloi sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych.

Tennynau

6.-(1) Rhaid peidio â rhoi tennynau ar loi, ac eithrio lloi a gedwir mewn adeilad gyda'i gilydd y gellir rhoi tennyn arnynt am gyfnod nad yw'n hwy nag awr pan gânt eu bwydo â llaeth neu amnewidyn llaeth.

(2) Pan ddefnyddir tennynau yn unol â'r is-baragraff blaenorol, rhaid iddynt beidio â pheri poen nac anaf i'r lloi a rhaid eu harchwilio'n rheolaidd a'u haddasu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn ffitio'n gysurus.

(3) Rhaid dylunio pob tennyn i osgoi risg tagu neu boen neu anaf ac i ganiatáu i'r llo orwedd, gorffwys, sefyll a thacluso'i hun heb rwyst.

(7) Sub-paragraph (6) shall not apply to any calf that is kept in isolation on a holding on veterinary advice.

(8) For the purpose of calculating the number of calves being kept on a holding in order to determine whether sub-paragraph (6) applies, no account shall be taken of any calf that is being kept in isolation on that holding on veterinary advice.

Transitional provisions for accommodation

2.-(1) Until 1st January 2004, sub-paragraphs (1),(3) and (4) of paragraph 1 shall not apply in relation to accommodation in use before 1st January 1998.

(2) Until 1st January 2004, in the case of accommodation brought into use after 1st January 1994 but before 1st January 1998 -

- (a) where calves are housed in groups, each calf of 150kg or more live weight shall have at least 1.5 square metres of unobstructed floor space, and
- (b) where a calf is housed in an individual stall or pen, the stall or pen shall have at least one perforated wall which enables the calf to see other animals in neighbouring stalls and pens unless isolated for veterinary reasons.

Inspection

3. All housed calves shall be inspected by the owner or keeper of the calves at least twice a day to check that they are in a state of well-being.

4. Calves which are kept outside shall be inspected by the owner or keeper of the calves at least once a day to check that they are in a state of well-being.

5. Where necessary, sick or injured calves shall be isolated in suitable accommodation with dry comfortable bedding.

Tethering

6.-(1) Calves shall not be tethered, with the exception of group-housed calves which may be tethered for a period of not more than one hour when being fed milk or milk substitute.

(2) Where tethers are used in accordance with the preceding sub-paragraph, they shall not cause pain or injury to the calves and shall be inspected regularly and adjusted as necessary to ensure a comfortable fit.

(3) Each tether shall be designed to avoid the risk of strangulation or pain or injury and allow the calf to lie down, rest, stand up and groom itself without hindrance.

Adeiladau â golau artiffisial

7. Pan gedwir lloi mewn adeilad â golau artiffisial yna, yn ddarostyngedig i baragraffau 14 ac 16 o Atodlen 1, rhaid darparu golau artiffisial am gyfnod sydd o leiaf yn hafal i'r cyfnod o olau naturiol sydd ar gael fel arfer rhwng 9.00 am a 5.00 pm.

Glanhau a diheintio

8.-(1) Rhaid i adeiladau, corau, corlannau, offer a theclynnau a ddefnyddir ar gyfer lloi gael eu glanhau a'u diheintio'n gywir i atal trawsheintio ac i atal organeddau sy'n cario clefydau rhag crynhoi.

(2) Rhaid i dail, biswail a bwyd sydd heb ei fwyta neu wedi'i golli gael eu symud cyn amlled ag y mae angen i leihau'r aroglau ac i osgoi denu pryfed neu gnoflod.

Lloriau

9. Pan gedwir lloi mewn adeilad, rhaid i'r lloriau fod -
- (a) yn llyfn heb fod yn llithrig er mwyn rhwystro anaf i'r lloi;
 - (b) wedi'u dylunio fel na fyddant yn peri anaf na dioddefaint i'r lloi wrth iddynt sefyll neu orwedd arnynt;
 - (c) yn addas ar gyfer maint a phwysau'r lloi; ac
 - (ch) yn ffurfio arwyneb caled, gwastad a sefydlog.

Gwasarn a man gorwedd

10.-(1) Rhaid darparu gwasarn priodol ar gyfer pob llo.

(2) Rhaid i bob llo gael ei gadw ar fan gorwedd, neu rhaid iddo bob amser allu mynd i fan gorwedd, sydd yn lân, yn gysurus ac wedi'i draenio'n dda ac nad yw'n effeithio'n andwyol ar y lloi.

(3) Rhaid i bob llo a gedwir mewn adeilad a lloi a gedwir mewn cytiau neu strwythurau dros dro gael ei gadw ar fan gorwedd, neu rhaid iddo bob amser allu mynd i fan gorwedd, sy'n cael ei gynnal yn dda â gwasarn sych.

Cynlaeth buchol

11. Rhaid i bob llo gael cynlaeth buchol cyn gynted â phosibl ar ôl ei eni a beth bynnag o fewn y chwech awr gyntaf o'i fywyd.

Gofynion deietegol ychwanegol

12.-(1) Rhaid darparu bwyd sy'n cynnwys digon o haearn i sicrhau lefel hemoglobin gwaed o 4.5mmol/litr o leiaf ar gyfer pob llo.

(2) Rhaid darparu lleiafswm o ddogon dyddiol o fwyd ffibraidd ar gyfer pob llo dros 2 wythnos oed, gan

Artificially lit buildings

7. Where calves are kept in an artificially lit building then, subject to paragraphs 14 and 16 of Schedule 1, artificial lighting shall be provided for a period at least equivalent to the period of natural light normally available between 9.00 am and 5.00 pm.

Cleansing and disinfection

8.-(1) Housing, stalls, pens, equipment and utensils used for calves shall be properly cleansed and disinfected to prevent cross-infection and the building-up of disease-carrying organisms.

(2) Faeces, urine and uneaten or spilt food shall be removed as often as necessary to minimise smell and to avoid attracting flies or rodents.

Floors

9. Where calves are kept in a building, floors shall -
- (a) be smooth but not slippery so as to prevent injury to the calves;
 - (b) be so designed as not to cause injury or suffering to calves standing or lying on them;
 - (c) be suitable for the size and weight of the calves; and
 - (d) form a rigid, even and stable surface.

Bedding and lying area

10.-(1) All calves shall be provided with appropriate bedding.

(2) All calves shall be kept on, or at all times have access to, a lying area which is clean, comfortable and well-drained and which does not adversely affect the calves.

(3) All housed calves and calves kept in hutches or temporary structures shall be kept on, or at all times have access to, a lying area which is well-maintained with dry bedding.

Bovine colostrum

11. Each calf shall receive bovine colostrum as soon as possible after it is born and in any case within the first six hours of life.

Additional dietary requirements

12.-(1) All calves shall be provided with food which contains sufficient iron to ensure a blood haemoglobin level of at least 4.5mmol/litre.

(2) A minimum daily ration of fibrous food shall be provided for each calf over 2 weeks old, the quantity

gynyddu'r swmp yn unol â thyfiant y llo o leiafswm o 100g pan yw'n 2 wythnos oed hyd at leiafswm o 250g pan yw'n 20 wythnos oed.

Safnrwymo

13. Rhaid peidio â safnrwymo lloi.

Bwydo

14.-(1) Rhaid bwydo pob llo o leiaf ddwywaith y dydd.

(2) Pan gedwir grŵp o loi mewn adeilad heb gyfle di-dor i gael bwyd, neu pan nad oes system fwydo awtomatig yn eu bwydo, rhaid i bob llo gael mynd at fwyd ar yr un adeg â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo.

Dŵr yfed

15.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid darparu swmp digonol o ddŵr yfed ffres ar gyfer pob llo bob dydd.

- (2) Rhaid darparu dŵr ffres ar gyfer lloi bob amser -
- (a) mewn tywydd poeth; neu
 - (b) pan fyddant yn sâl.

being raised in line with the growth of the calf from a minimum of 100 g at 2 weeks old to a minimum of 250 g at 20 weeks old.

Muzzling

13. Calves shall not be muzzled.

Feeding

14.-(1) All calves shall be fed at least twice a day.

(2) Where calves are housed in a group and do not have continuous access to feed, or are not fed by an automatic feeding system, each calf shall have access to food at the same time as the others in the feeding group.

Drinking water

15.-(1) Subject to sub-paragraph (2), all calves shall be provided with a sufficient quantity of fresh drinking water each day.

- (2) Calves shall be provided with fresh water at all times -
- (a) in hot weather conditions, or
 - (b) when they are ill.

ATODLEN 5

Rheoliad 7

AMODAU YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I GADW GWARTHEG

1. Pan gedwir gwartheg godro sy'n llaetha neu unrhyw wartheg sydd ar ddod â llo mewn llety o dan do rhaid iddynt allu mynd bob amser i fan gorwedd sydd wedi'i ddraenio'n dda ac â gwasarn.

2. Pan gedwir unrhyw wartheg sydd ar ddod â llo mewn adeilad, rhaid iddynt gael -

- (a) mewn corlan neu fuarth sydd o'r fath faint ag sy'n caniatáu i berson ofalu am y gwartheg, a
- (b) ar wahân i dda byw eraill heblaw gwartheg sydd ar ddod â llo.

SCHEDULE 5

Regulation 7

ADDITIONAL CONDITIONS THAT APPLY TO THE KEEPING OF CATTLE

1. Where any lactating dairy cows or any cows which are calving are kept in any roofed accommodation they shall have access at all times to a well-drained and bedded lying area.

2. Where any cows which are calving are kept in a building, they shall be kept -

- (a) in a pen or a yard which is of such a size as to permit a person to attend the cows, and
- (b) separate from other livestock other than calving cows.

AMODAU YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I GADW MOCH**RHAN I****DEHONGLI****1. Yn yr Atodlen hon -**

ystyr "baedd" ("*boar*") yw mochyn gwryw ar ôl ei flaenaeddfedrwydd, a fwriedir ar gyfer bridio;

ystyr "banwes" ("*gilt*") yw mochyn benyw a fwriedir ar gyfer bridio ar ôl ei blaenaeddfedrwydd a chyn dod â moch bach;

ystyr "hwch" ("*sow*") yw mochyn benyw ar ôl iddi ddod â moch bach y tro cyntaf;

ystyr "mochyn magu" ("*rearing pig*") yw mochyn o ddeg wythnos hyd at ladd neu serfio;

ystyr "porchell" ("*piglet*") yw mochyn o'i enedigaeth hyd at ei ddiddyfnu; ac

ystyr "porchell diddwyn" ("*weaner*") yw mochyn o'i ddiddyfnu hyd at 10 wythnos oed.

RHAN II**AMODAU YCHWANEGOL CYFFREDINOL****Archwilio**

2. Rhaid i bob mochyn gael ei archwilio gan berchennog neu geidwad y moch o leiaf unwaith y dydd i sicrhau ei fod mewn cyflwr o lesiant.

3. Pan fydd angen, rhaid ynysu moch sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych.

Tennynau

4. Ni chaiff neb roi tennyn na pheri rhoi tennyn ar unrhyw fochyn ac eithrio pan fydd yn mynd o dan archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at unrhyw ddiben milfeddygol.

5.-(1) Pan ganiateir defnyddio tennynau yn unol â pharagraff 4, rhaid iddynt beidio â pheri anaf i'r moch a rhaid eu harchwilio'n rheolaidd a'i haddasu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn ffitio'n gysurus.

(2) Rhaid i bob tennyn fod o ddigon o hyd i ganiatáu i'r moch symud fel y nodir ym mharagraff 6(2) isod a rhaid i'r dyluniad fod yn gyfryw fel y bydd yn osgoi, cyn belled â phosibl, unrhyw risg o dagu, poen neu anaf.

ADDITIONAL CONDITIONS THAT APPLY TO THE KEEPING OF PIGS**PART I****INTERPRETATION****1. In this Schedule -**

"boar" ("*baedd*") means a male pig after puberty, intended for breeding;

"gilt" ("*banwes*") means a female pig intended for breeding after puberty and before farrowing;

"piglet" ("*porchell*") means a pig from birth to weaning;

"rearing pig" ("*mochyn magu*") means a pig from ten weeks to slaughter or service;

"sow" ("*hwch*") means a female pig after the first farrowing; and

"weaner" ("*porchell diddwyn*") means a pig from weaning to the age of ten weeks.

PART II**GENERAL ADDITIONAL CONDITIONS****Inspection**

2. All pigs shall be inspected by the owner or keeper of the pigs at least once a day to check that they are in a state of well being.

3. Where necessary, sick or injured pigs shall be isolated in suitable accommodation with dry comfortable bedding.

Tethering

4. No person shall tether or cause to be tethered any pig except while it is undergoing any examination, test, treatment or operation carried out for any veterinary purpose.

5.-(1) Where the use of tethers is permitted in accordance with paragraph 4, they shall not cause injury to the pigs and shall be inspected regularly and adjusted as necessary to ensure a comfortable fit.

(2) Each tether shall be of sufficient length to allow the pigs to move as stipulated in paragraph 6(2) below and the design shall be such as to avoid, as far as possible, any risk of strangulation, pain or injury.

Llety

6.-(1) Rhaid i bob mochyn fod yn rhydd i droi o amgylch heb anhawster bob amser.

(2) Rhaid i'r llety a ddefnyddir ar gyfer moch gael ei adeiladu yn y fath fodd ag i ganiatáu i bob mochyn -

- (a) sefyll, gorwedd a gorffwyso heb anhawster;
- (b) cael lle glân y gall orffwyso ynddo; ac
- (c) gweld moch eraill, onid yw'r mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol.

7.-(1) Rhaid i faintioli unrhyw gôr neu gorlan fod yn gyfryw fel nad yw'r arwynebedd mewnol yn llai na hyd y mochyn wedi'i sgwario, ac nad yw unrhyw ochr fewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn, ac ymhob achos mae hyd y mochyn yn cael ei fesur o flaen ei drwyn hyd at fôn ei gynffon tra bydd yn sefyll gyda'i gefn yn syth.

(2) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â mochyn benyw am y cyfnod rhwng saith diwrnod cyn y dydd disgwylididdi iddi ddod â moch bach a'r dydd y bydd diddyfnu ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll a faethir ganddi), wedi'i gwblhau.

(3) Ni fydd person yn euog o dramgwydd yn unol â rheoliad 13(1) o dorri neu fethu â chydymffurfio â'r paragraff hwn drwy gadw mochyn mewn côr neu gorlan -

- (a) tra bydd o dan unrhyw archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at ddibenion milfeddygol;
- (b) at ddibenion serfio, cyfebru artiffisial neu gasglu semen;
- (c) tra caiff ei fwydo ar unrhyw achlysur arbennig;
- (ch) at ddibenion ei farcio, ei olchi neu ei bwysu;
- (d) tra bydd ei lety'n cael ei lanhau, neu
- (dd) tra bydd yn disgwyl cael ei lwytho ar gyfer ei gludo,

ar yr amod nad yw'r cyfnod pan gedwir y mochyn yn hwy nag y mae ei angen i'r diben hwnnw.

(4) Ni fydd person yn euog o dramgwydd yn unol â rheoliad 13(1) o dorri neu fethu â chydymffurfio â'r paragraff hwn am gadw mochyn mewn côr neu gorlan y gall y mochyn fynd iddo neu ei adael fel y myn, ar yr amod yr eir i'r côr neu'r gorlan o gôr neu gorlan y mae'r mochyn yn cael ei gadw ynddynt heb fynd yn groes i'r paragraff hwn.

Adeiladau â golau artiffisial

8. Pan gedwir moch mewn adeilad â golau artiffisial yna, yn ddarostyngedig i baragraffau 14 ac 16 o Atodlen 1, rhaid darparu golau artiffisial am gyfnod sydd o leiaf yn hafal i'r cyfnod o olau naturiol sydd ar gael fel arfer rhwng 9.00 a.m. a 5.00 p.m.

Accommodation

6.-(1) A pig shall be free to turn round without difficulty at all times.

(2) The accommodation used for pigs shall be constructed in such a way as to allow each pig to -

- (a) stand up, lie down and rest without difficulty;
- (b) have a clean place in which it can rest; and
- (c) see other pigs, unless the pig is isolated for veterinary reasons.

7.-(1) The dimension of any stall or pen shall be such that the internal area is not less than the square of the length of the pig, and no internal side is less than 75% of the length of the pig, the length of the pig in each case being measured from the tip of its snout to the base of its tail while it is standing with its back straight.

(2) This paragraph shall not apply in relation to a female pig for the period between seven days before the predicted day of her farrowing and the day on which the weaning of her piglets (including any piglets fostered by her) is complete.

(3) A person shall not be guilty of an offence in accordance with regulation 13(1) of contravening or failing to comply with this paragraph by reason of the keeping of a pig in a stall or pen.

- (a) while it is undergoing any examination, test, treatment or operation carried out for veterinary purposes;
- (b) for the purposes of service, artificial insemination or collection of semen;
- (c) while it is fed on any particular occasion;
- (d) for the purposes of marking, washing or weighing it;
- (e) while its accommodation is being cleaned; or
- (f) while it is awaiting loading for transportation,

provided that the period during which it is so kept is not longer than necessary for that purpose.

(4) A person shall not be guilty of an offence in accordance with regulation 13(1) of contravening or failing to comply with this paragraph by reason of the keeping of a pig in a stall or pen which the pig can enter or leave at will, provided that the stall or pen is entered from a stall or pen in which the pig is kept without contravention of this paragraph.

Artificially lit buildings

8. Where pigs are kept in an artificially lit building then, subject to paragraphs 14 and 16 of Schedule 1, artificial lighting shall be provided for a period at least equivalent to the period of natural light normally available between 9.00 am and 5.00 pm.

Atal ymladd

9.-(1) Os cedwir moch gyda'i gilydd, rhaid cymryd mesurau i atal ymladd sy'n mynd y tu hwnt i ymddygiad arferol.

(2) Rhaid i foch sy'n dangos eu bod yn gyson ymosodol tuag at eraill neu'n dioddef ymosodiadau o'r fath gael eu hynysu neu eu cadw ar wahân i'r grŵp.

Glanhau a diheintio

10.-(1) Rhaid i adeiladau, corlannau, offer a theclynnau a ddefnyddir ar gyfer moch gael eu glanhau a'u diheintio'n gywir i atal trawsheintio ac i atal organeddau sy'n cario clefydau rhag crynhoi.

(2) Rhaid i ddom neu tail, biswail a bwyd sydd heb ei fwyta neu wedi'i golli gael ei symud cyn amled ag y mae angen i leihau'r aroglau ac i osgoi denu pryfed neu gnofilod.

Man gorwedd

11.-(1) Pan gedwir moch mewn adeilad, rhaid eu cadw ar fan gorwedd, neu rhaid iddynt bob amser allu mynd i fan gorwedd, sy'n lân, yn gysurus ac nad yw'n effeithio yn andwyol arnynt ac y mae ganddo naill ai wasarn sych wedi'i gynnal yn dda neu sydd wedi'i draenio'n dda.

(2) Pan ddarperir gwasarn, rhaid iddo fod yn lân, yn sych a heb fod yn niweidiol i'r moch.

Lloriau

12. Pan gedwir moch mewn adeilad, rhaid i'r lloriau fod -

- (a) yn llyfn heb fod yn llithrig er mwyn rhwystro anaf i'r moch;
- (b) wedi'u dylunio fel na fyddant yn peri anaf na ddiodefaint i'r moch wrth iddynt sefyll neu orwedd arnynt;
- (c) yn addas ar gyfer maint a phwysau'r moch; ac
- (ch) yn ffurfio arwyneb caled, gwastad a sefydlog.

Bwydo

13.-(1) Rhaid bwydo pob mochyn o leiaf unwaith y dydd.

(2) Pan gedwir grŵp o foch mewn adeilad heb gyfle di-dor i gael bwyd, neu pan nad oes system fwydo awtomatig yn eu bwydo, rhaid i bob mochyn gael mynd at fwyd ar yr un adeg â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo.

Dŵr yfed

14. Rhaid darparu cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres ar gyfer pob mochyn bob dydd.

Prevention of fighting

9.-(1) If pigs are kept together, measures shall be taken to prevent fighting which goes beyond normal behaviour.

(2) Pigs which show persistent aggression towards others or are victims of such aggression shall be isolated or kept separate from the group.

Cleansing and disinfection

10.-(1) Housing, pens, equipment and utensils used for pigs must be properly cleansed and disinfected as necessary to prevent cross-infection and the build-up of disease-carrying organisms.

(2) Faeces, urine and uneaten or spilt food must be removed as often as necessary to minimise smell and avoid attracting flies or rodents.

Lying area

11.-(1) Where pigs are kept in a building they shall be kept on, or have access at all times to, a lying area which is clean, comfortable and does not adversely affect them, and either has well-maintained dry bedding or is well-drained.

(2) Where bedding is provided, this must be clean, dry and not harmful to the pigs.

Floors

12. Where pigs are kept in a building, floors shall -

- (a) be smooth but not slippery so as to prevent injury to the pigs;
- (b) be so designed as not to cause injury or suffering to pigs standing or lying on them;
- (c) be suitable for the size and weight of the pigs; and
- (d) form a rigid, even and stable surface.

Feeding

13.-(1) All pigs must be fed at least once a day.

(2) Where pigs are housed in a group and do not have continuous access to feed; or are not fed by an automatic feeding system, each pig must have access to the food at the same time as the others in the feeding group.

Drinking water

14. All pigs shall be provided with an adequate supply of fresh drinking water each day.

Cyfoethogi'r amgylchedd

15. Yn ychwanegol at y mesurau a gymerir fel arfer i rwystro brathu cynffonau a gwendidau eraill ac er mwyn eu galluogi i fodloni eu hanghenion ymddygiad, rhaid i bob mochyn, gan gymryd i ystyriaeth yr amgylchedd a'r dwysedd stocio, gael y cyfle i fynd at wellt neu ddefnydd neu wrthrych arall sy'n addas i fodloni'r anghenion hynny.

Gwahardd defnyddio'r system blwch-chwysu

16. Rhaid peidio â chadw moch mewn amgylchedd sy'n golygu cynnal tymheredd uchel a lleithder uchel (a elwir y "system blwch-chwysu").

RHAN III

BAEDDOD

17. Rhaid lleoli ac adeiladu corlannau baeddod i ganiatáu i'r baedd droi o amgylch a chlywed, gweld ac aroglu moch eraill, a rhaid iddynt gynnwys mannau gorffwys glân.

18. Rhaid i'r man gorffwys fod yn sych ac yn gysurus.

19. Y maint lleiaf i gorlan baedd llawndwf yw chwe metr sgwâr, ac eithrio bod rhaid darparu arwynebedd mwy pan ddefnyddir corlannau ar gyfer serfio.

RHAN IV

HYCHOD A BANWESI

20. Rhaid rhoi triniaeth i fanwesi a hychod rhwng cyfnod diddyfnu eu perchyll a'r cyfnod amesgorol, pan fydd angen hynny, rhag parasitiaid allanol a mewnol.

21. Os ydynt yn cael eu rhoi mewn cratiau i ddod â moch bach, rhaid i hychod a banwesi torrog fod yn hollol lân.

22. Rhaid darparu man gorwedd glân a chysurus wedi'i draenio'n addas ar gyfer banwesi a hychod rhwng cyfnod diddyfnu eu perchyll a'r cyfnod amesgorol, ac os oes ei angen, rhaid rhoi defnydd nythu addas iddynt.

23. Yn ystod amser dod â moch bach, rhaid bod lle dirwystr ar gael y tu ôl i'r hwch neu'r fanwes i hwyluso dod â'r moch bach yn naturiol neu drwy gymorth.

24. Rhaid i gorlannau dod â moch bach lle cedwir hychod yn rhydd gael rhyw fodd i amddiffyn y perchyll, megis rheiliau ar gyfer moch bach.

Environmental enrichment

15. In addition to the measures normally taken to prevent tail-biting and other vices and in order to enable them to satisfy their behavioural needs, all pigs, taking into account environment and stocking density, shall have access to straw or other material or object suitable to satisfy those needs.

Prohibition on the use of the sweat-box system

16. Pigs shall not be kept in an environment which involves maintaining high temperatures and high humidity (known as the "sweat-box system").

PART III

BOARS

17. Boar pens shall be sited and constructed so as to allow the boar to turn round and to hear, see and smell other pigs, and shall contain clean resting areas.

18. The lying area shall be dry and comfortable.

19. The minimum pen size for an adult boar shall be six square metres, except that a larger area shall be provided when pens are used for service.

PART IV

SOWS AND GILTS

20. Gilts and sows between weaning their piglets and the perinatal period shall, where necessary, be treated against external and internal parasites.

21. If they are placed in farrowing crates, pregnant sows and gilts shall be thoroughly clean.

22. Gilts and sows between weaning their piglets and the perinatal period shall be provided with a clean, adequately drained, comfortable lying area and shall, if necessary, be given suitable nesting material.

23. During farrowing, an unobstructed area behind the sow or gilt shall be available for the ease of natural or assisted farrowing.

24. Farrowing pens where sows are kept loose must have some means of protecting the piglets, such as farrowing rails.

RHAN V
PERCHYLL

25. Os oes angen, rhaid darparu perchyll â ffynhonnell o wres a man gorwedd cadarn, sych a chysurus oddi wrth yr hwch lle y gallant i gyd orffwys ar yr un adeg.

26. Pan ddefnyddir crât dod â moch bach, rhaid i'r perchyll gael digon o ofod i'w galluogi i sugno heb drafferth.

27. Rhaid peidio â thorri cynffonnau na chlipio dannedd yn rheolaidd onid oes tystiolaeth ar y fferm, bod anafiadau wedi digwydd i dehau hychod neu i gynffonnau neu glustiau moch eraill yn sgil peidio â gweithredu'r gweithdrefnau hyn.

28. Pan ymddengys ei bod yn angenrheidiol clipio dannedd, rhaid gwneud hyn o fewn saith diwrnod o'r enedigaeth yn unig.

29. Rhaid peidio â diddyfnu perchyll oddi wrth yr hwch yn llai na thair wythnos oed oni fyddai lles neu iechyd y fam neu'r perchyll yn cael eu heffeithio'n andwyol.

RHAN VI

PERCHYLL DIDDWYN A MOCH MAGU

30. Rhaid rhoi moch mewn grwpiau cyn gynted â phosibl ar ôl eu diddyfnu. Rhaid eu cadw mewn grwpiau sefydlog gyda chyn lleied â phosibl o gymysgu

31. Bydd arwynebedd llawr dirwystyr sydd ar gael i bob porchell diddwyn neu fochyn magu a fegir mewn grŵp o leiaf -

- (a) yn 0.15 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn 10 kg neu lai;
- (b) yn 0.20 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 10 kg ond yn llai na 20 kg neu'n gyfartal â hynny;
- (c) yn 0.30 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 20 kg ond yn llai na 30 kg neu'n gyfartal â hynny;
- (ch) yn 0.40 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 30 kg ond yn llai na 50 kg neu'n gyfartal â hynny;
- (d) yn 0.55 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 50 kg ond yn llai na 85 kg neu'n gyfartal â hynny;
- (dd) yn 0.65 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn

PART V
PIGLETS

25. If necessary, piglets shall be provided with a source of heat and a solid, dry and comfortable lying area away from the sow where all of them can rest at the same time.

26. Where a farrowing crate is used, the piglets shall have sufficient space to enable them to suckle without difficulty.

27. Neither tail docking nor tooth clipping shall be carried out routinely but only when there is evidence, on the farm, that injuries to sows' teats or to other pigs' ears or tails have occurred as a result of not carrying out these procedures.

28. Where tooth clipping appears necessary, this shall only be carried out within seven days of birth.

29. Piglets shall not be weaned from the sow at an age of less than three weeks unless the welfare or health of the dam or piglets would otherwise be adversely affected.

PART VI

WEANERS AND REARING PIGS

30. Pigs shall be placed in groups as soon as possible after weaning. They shall be kept in stable groups with as little mixing as possible.

31. The unobstructed floor area available to each weaner or rearing pig reared in a group shall be at least

- (a) 0.15 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is 10 kg or less;
- (b) 0.20 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 10 kg but less than or equal to 20 kg;
- (c) 0.30 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 20 kg but less than or equal to 30 kg;
- (d) 0.40 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 30 kg but less than or equal to 50 kg;
- (e) 0.55 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 50 kg but less than or equal to 85 kg;
- (f) 0.65 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more

fwy na 85 kg ond yn llai na 110kg neu'n gyfartal â hynny; ac

- (e) yn 1.00 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 110 kg.

than 85 kg but less than or equal to 110 kg; and

- (g) 1.00 square metre for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 110 kg.

ATODLEN 7

Rheoliad 9

AMODAU YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I GADW CWNINGOD

1. Rhaid i unrhyw gytiau neu gewyll y cedwir cwningod ynddynt -

- (a) fod o faint digonol i ganiatáu'r cwningod i symud o gwmpas ac i fwyta ac yfed heb anhawster a galluogi'r cwningod a gedwir ynddynt i orwedd ar eu hochrau ar yr un adeg, a
- (b) fod o uchder digonol i ganiatáu'r cwningod i eistedd yn gefnsyth ar bedair troed heb i'w clustiau gyffwrdd â nenfwd y cwt neu'r cawell.

2. Pan gedwir unrhyw wningod mewn llety sy'n agored i'r tywydd, rhaid cymryd camau priodol i sicrhau bod y cwningod yn gallu mynd i gysgodi rhag y tywydd (gan gynnwys golau haul uniongyrchol).

SCHEDULE 7

Regulation 9

ADDITIONAL CONDITIONS THAT APPLY TO THE KEEPING OF RABBITS

1. Any hutches or cages in which any rabbits are kept shall be -

- (a) of sufficient size to allow the rabbits to move around and to feed and drink without difficulty and to enable all the rabbits kept in them to lie on their sides at the same time, and
- (b) of sufficient height to allow the rabbits to sit upright on all four feet without having their ears touching the top of the hutch or cage.

2. Where any rabbits are kept in any accommodation which is exposed to the weather, suitable steps shall be taken so as to ensure that the rabbits have access to shelter from the action of the weather (including direct sunlight).

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2682 (Cy.223)

ANIFEILIAID, CYMRU

ATAL CREULONDEB

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a
Ffermir (Cymru) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2682 (W.223)

ANIMALS, WALES

PREVENTION OF CRUELTY

The Welfare of Farmed Animals
(Wales) Regulations 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£4.50


W368/10/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090345-5



9 780110 903453